

CYNGOR CYMUNED PENNAL

Cofnodion o Gyfarfod Cyngor Cymuned Pennal a gynhaliwyd Nos Wener y 10fed o Tachwedd 2023 am 7.30yh yn y Ganolfan Pennal.

Presennol; Rhys Parry, James Brunton, William Rees, Ken Griffiths, Aled Rees, Dewi Owen (Cyngor Gwynedd) a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Rhys Parry. Roedd ymddiheuriadau i law gan Cyng Meirion Roberts ac Hywel Evans. Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.
2. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw gyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 1af Medi ar gynnig Cyng. James Brunton a'i eilio gan William Rees.
4. **Materion yn codi.**
 - **Dwr yn sefyll o flaen Ty Alys** – cyfeiriwyd at y cefndir, ac roedd lluniau o'r sefyllfa ar gyfnod o law trwm wedi ei ddanfôn ymlaen i'r Adran Briffrydd. Roedd y luniau yn dangos y broblem yn glir iawn.
 - **Tir ger Graiandy** – nodwyd ymateb Adra yn cadarnhau fod 1,2, a 3 yn perchen iddynt, ac nad oedd gwerthiant tir wedi digwydd ers y trosglwyddiad yn 2010. Gwelwyd na fedrai'r Cyngor wneud dim mwy am y mater.
 - **Mynwent yr Eglwys** – adroddwyd y diweddaraf am y fynwent yma a oedd ym mherchnogaeth yr Eglwys. Roedd y gwaith o dorri goed wedi ei gwblhau. Roedd angen trefnu diwrnod o dacluso/clirio yno, ac y dylid trefnu hyn yn y Gwnawyn. Byddai angen gwneud penderfyniad o ran cymryd y cyfrifoldeb am y fynwent hon maes o law, ond atgoffwyd y byddai yn golygu costau a liability mawr i'r Cyngor Cymuned, ac yn faich enfawr. Nid oedd modd gwenud mwy heb gael llythyr gan yr Eglwys.
 - **Carafan static Cwm Sylwi, ac ail garafan gyferbyn a'r Rheithordy** - darllenwyd ymateb pellach gan y Parc Cenedlaethol. Nodwyd fanylion safle ger y Rheithordy, ond roedd angen atgoffa am safle Cwm Sylwi.
 - **Cofrestr Asedau** – nodwyd y rhestr, sef cyfanswm o £17,000. Roedd angen adolygu, ond gwelwyd fod angen ail-edrych ar gofnod blaenorol. Byddai rhaid trafod eto. Nodwyd angen i gysylltu gyda Thomas Hughes sy'n gofalu am y 2 difibrillators, ac a oedd angen gwirio y sefyllfa.
 - **Cais gan y Ganolfan i dalu cost WiFi.** *Yn rhan hwn o'r cyfarfod, croesawyd Katie a Paul atom o Bwyllgor y Ganolfan i drafod cais a ddaeth i law drwy e-bost am gyfraniad at gost o £436.44 y flwyddyn am y ddarpariaeth. Rhoddodd Katie y cefndir, ac mai Cyngor Gwynedd oedd yn talu am hyn yn wreiddiol, ond nad oedd wedi ei gysylltu ers Mehefin 2023. Roedd nifer o fudiadau ei angen, ac roedd perygl na fyddai rhai mudiadau neudigwyddiadau yn dod yno os nad oedd y ddarpariaeth ar gael. Hefyd roedd yn anodd cynyddu y tal ar fudiadau yn yr hinsawdd ohoni. Hefyd roedd ar gael i bawb yn y gymuned. Cafwyd trafodaeth i ddilyn, a phenderfynwyd rhoi cyfraniad o £200 am y flwyddyn 2023-24.*
 - **Rheolau Sefydlog Un Llais Cymru** (sef fersiwm 2023) – adroddodd y Clerc fod y rhain wedi eu cylchredeg i bawb gael golwg arnynt. Nodwyd yn

arbennig y sefyllfa gyda polisi iaith, ac hefyd e-bost i law gan aelod o'r cyhoedd ynglyn a hyn. Penderfynwyd rhoi cyfieithiad un waith iddo, ond y byddai rhaid codi cost rhesymol os yn ychwanegol i hyn, yn unol a'r rheolau. Ar gynnig Cyng Aled Rees, a'i eilio gan Cyng William Rees, penderfynwyd yn unfrydol i fabwysiadu y Rheolau newydd.

5. Materion Cynllunio

Nid oedd unrhyw geisiadau i law.

6. Materion Cyllid.

- a) Nodwyd balansau y cyfrifon, sef Cyfri cyfredol £10,504.93 a Cyfri Cadw £2,621.92. Cadarnhwyd taliad cydnabyddiaeth y Clerc am yr ail chwarter, sef £499.99 a HMRC £125.
- b) Roedd sic o £121 i law gan I B Williams a'i Fab am osod beddfaen i'r diweddar Ella Marie Rayner.

b) Roedd 3 cais am arian i law, a phenderfynwyd fel a ganlyn;

Papur Bro Dail Dysynni - £100.

Apel Elusen ambiwlans Awyr Cymru – penderfynwyd peidio cyfrannu gan fod nifer o gyfraniadau yn cael eu gwneud o'r ardal eisoes.

Radio Ysbyty Gwynedd – penderfynwyd peidio cyfrannu. Nodwyd mai I Ysbyty Bronglais yr oedd y rhan fwyaf o drigolion yr ardal yn mynd iddo.

7. Gohebiaeth.

- a) Nodwyd ohebiaeth am y bwriad i gau yr A487 ger Pontarddyfi yn Ionawr 2024. Nodwyd y sesiynau 'galw mewn' a oedd wedi eu cynnal, a'r gwrthywnebiad cryf i hyn. Roedd mynediad ar droed wedi ei gytuno eiseos. Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Mabon ap Gwynfor i amlinellu y gwrthwynebiad, ac os oedd y ffordd yn cau, i gadw at yr amserlen.
- b) Hyfforddiant Cynghorwyr – amlinellwyd wybodaeth am nifer o gyrsiau Un Llais Cymru. Nodwyd bwysigrwydd hyn, a rhestrowyd y cyrsiau oedd ar gael yn rhad ac am ddim. Penderfynwyd ymdrin a hyn yn nechrau'r flwyddyn.

8. Unrhyw fater arall.

- a) Nodwyd ffurflenni ynglyn a chydabyddiaeth ariannol I Gynghorwyr, a chadarnhwyd nad oedd neb eisiau hawlio unrhyw dreuliau o Gyngor Cymuned Pennal am y flwyddyn 2023-24. Cafwyd ddatganiad gan bawb.
- b) Nodwyd yr angen i gael Contract gwaith i'r Clerc. Roedd copi drafft wedi ei ddanfôn i'r Cadeirydd, a dangoswyd i'r Cynghorwyr. Penderfynwyd y gallai y Cadeirydd ei arwyddo.

- c) Roedd Cyngor Gwynedd wedi agor ffos ar ochr dde y ffordd yn arwain tuag at Cefn Caer. Gallai fod yn beryglus i ddefnyddwyr y ffordd.
- d) Roedd manhole ar Tower Road yn parhau yn bryder, ond nodwyd fod cyfarfod wedi ei gynnal gyda Sion Wilkes yno.
- e) Roedd cylfert y tu allan i'r Glanyrafon wedi llenwi gyda dail ac angen sylw.
- f) Roedd carthffosiaeth yn codi o manhole ger Brynllinos, ar y ffordd tua Cefn Caer, ac angen sylw ar frys.
- g) Roedd yna fan lliw gwyn, ynghyd a cwch, wedi ei barcio yn y Maes Parcio sydd yn perthyn I Adra ger Maesteg. Roedd angen danfon at Adra.
- h) Roedd dwr dros y ffordd ger Forest Lodge, Maesteg.
- i) Roedd angen llenwi biniau halen yn yr ardal, ac roedd angen gofyn I Gyngor Gwynedd a oeddynt yn ymdrin a hyn yn rhad ac am ddim.
- j) Roedd angen glanhau y draeniau gerllaw y Glanyrafon, a gwneud hyn yr adeg hon o'r flwyddyn bob amser. Roedd angen codi hyn gyda Chyngor Gwynedd.
- k) Roedd angen eglurhad am sefyllfa cloc twr yr Eglwys sydd yn perthyn I'r Cyngor Cymuned. Byddai'r Clerc yn gwneud ymholiadau.

Byddai'r cyfarfod nesaf Nos Wener 26ain o Ionawr 2024 yn y Ganolfan am 7.30.
(os na fyddai materion o frys wedi codi yn y cyfamser)

Daethpwyd a'r cyfarfod i ben am 9.10pm.